Rhif: **WG27546**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Llywodraeth Cymru

## Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Rheoliadau yn unol â darpariaethau Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015

Crynodeb o'r ymatebion i reoliadau arfaethedig dan adrannau 37–40 o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015

Dyddiad cyhoeddi: **Ionawr 2016**

# Rheoliadau yn unol â darpariaethau Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015

| | |
|---|---|
| **Cynulleidfa** | Sefydliadau addysg uwch, sefydliadau addysg bellach, darparwyr addysg uwch eraill ac ymatebwyr i'r ymgynghoriad. |
| **Trosolwg** | Crynodeb o'r ymatebion i'r 'materion ychwanegol' a nodir yn nogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru ynghylch rheoliadau arfaethedig yn unol â darpariaethau Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015. |
| **Camau i'w cymryd** | Dim – er gwybodaeth yn unig. |
| **Rhagor o wybodaeth** | Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:<br>Yr Is-adran Addysg Uwch<br>Y Gyfarwyddiaeth Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br>e-bost: HEDConsultationsMailbox@cymru.gsi.gov.uk |
| **Copïau ychwanegol** | Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn www.llyw.cymru/ymgyngoriadau |
| **Dogfennau cysylltiedig** | *Rheoliadau yn unol â darpariaethau Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015* (2015) dogfen ymgynghori<br>www.gov.wales/docs/dcells/consultation/150317-consultation-cy1.pdf<br>*Rheoliadau yn unol â darpariaethau Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015* (2015) crynodeb o'r ymatebion<br>www.gov.wales/docs/dcells/consultation/150814-sor-he-act-cy.pdf |

OGL © Hawlfraint y Goron 2016 WG27546 ISBN digidol 978 1 4734 5585 6

## Cynnwys

**Cefndir** **2**

**Rhan 5 o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015** **3**

Adran 37 4

Adran 38 5

Adran 39 5

Adran 40 6

Dulliau diogelu 6

**Adran 52** **9**

## Cefndir

1. Fe wnaeth Llywodraeth Cymru bum set o reoliadau dan Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 (‘y Ddeddf’) yng Ngorffennaf 2015. Cyn gwneud y rheoliadau hynny, cynhaliwyd ymgynghoriad[1] (17 Mawrth 2015–12 Mai 2015). Cafodd crynodeb o'r ymatebion i rai elfennau o'r ymgynghoriad hwnnw eu cyhoeddi yn Awst 2015[2].

2. Esboniodd Llywodraeth Cymru ei bod yn ystyried gwneud rheoliadau dan Ran 5 (adrannau 37–40) ac adran 52 o’r Ddeddf. Gofynnwyd nifer o gwestiynau. Mae’r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion ac yn amlinellu beth mae Llywodraeth Cymru wedi ei wneud o ganlyniad i'r ymgynghoriad.

[1] http://gov.wales/consultations/education/regulations-from-the-higher-education-wales-act/?status=closed&lang=cy
[2] http://gov.wales/consultations/education/regulations-from-the-higher-education-wales-act/?status=closed&lang=cy

## Rhan 5 o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015

3. Mae Rhan 5 (adrannau 37–40) o'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth ar gyfer tynnu cymeradwyaeth etc. yn ôl i gynlluniau ffioedd a mynediad. Caiff sefydliad elusennol yng Nghymru sy'n darparu addysg uwch wneud cais i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ('y Cyngor Cyllido') gymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad. Cynigir fod rhai o gyrsiau'r sefydliad yn cael eu 'dynodi'n awtomatig' os caiff ei gymeradwyo[3]. Gallai myfyrwyr sy'n gwneud cyrsiau dynodedig fod yn gymwys i gael cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru.

4. Mae adran 37 yn ymwneud â hysbysiad i wrthod cynllun ffioedd a mynediad newydd. Yn amodol ar unrhyw amddiffyniad trosiannol i fyfyrwyr sy'n parhau, sy'n cael ei nodi yn y rheoliadau arfaethedig ar gymorth i fyfyrwyr ar gyfer blwyddyn academaidd 2017/18, ni fyddai myfyrwyr yn gymwys i gael cymorth heb gynllun ffioedd a mynediad. Mae'r Ddeddf yn darparu y gallai'r Cyngor Cyllido, pan fo'n rhoi hysbysiad dan adran 37, dynnu'r hysbysiad yn ôl (er enghraifft pan fo'r sefydliad yn penderfynu datrys y mater dan sylw) ac mae'r cyfyngiad yn rhoi'r gorau i fod yn berthnasol.

5. Mae adran 38 yn ymwneud â dyletswydd y Cyngor Cyllido i dynnu'n ôl ei gymeradwyaeth i gynllun ffioedd a mynediad. Mae'r ddyletswydd hon yn codi pan fo'r Cyngor Cyllido wedi'i fodloni nad yw sefydliad yn dod dan adran 2(3) o'r Ddeddf mwyach, h.y. nad yw mwyach yn sefydliad elusennol yng Nghymru sy'n darparu addysg uwch.

6. Mae adran 39 yn ymwneud â phŵer y Cyngor Cyllido i dynnu'n ôl ei gymeradwyaeth i gynllun ffioedd a mynediad. Pan gaiff cynllun ei dynnu'n ôl, mae'n bosibl na fydd myfyrwyr yn gymwys mwyach am gymorth (ond fel uchod, mae hyn yn amodol ar unrhyw amddiffyniad trosiannol a roddir gan y rheoliadau cymorth i fyfyrwyr ar y pryd).

7. Mae adran 40 yn ymwneud â chyhoeddi hysbysiadau a roddir dan adrannau 37–39.

8. Roedd y ddogfen ymgynghori'n nodi bod Gweinidog Cymru yn ystyried p'un ai i wneud rheoliadau dan yr adrannau hyn ai peidio. Ond oherwydd yr effaith ar sefydliad rheoledig o ddefnyddio un neu ragor o'r pwerau hyn, roedd angen ymgynghori er mwyn sicrhau bod barn y sector addysg uwch yn goleuo'r broses o lunio'r is-ddeddfwriaeth.

9. Pryder arbennig oedd y 'materion' y gellid eu hystyried mewn cysylltiad â phob pŵer (adran 37(7)(b), 38(2)(a) and 39(4)). Caiff canlyniadau'r ymgynghoriad eu hadrodd mewn perthynas â phob adran isod, ond un thema gyffredin oedd y dylid cael 'dulliau diogelu' yn eu lle er mwyn amddiffyn rhag defnyddio pwerau adran 37–39 yn

[3] Mae hyn yn ddibynnol ar gynnwys darpariaeth benodol ar gyfer hyn yn y rheoliadau cymorth i fyfyrwyr addysg uwch ar gyfer blwyddyn academaidd 2017/18.

amhriodol. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried hyn yn ofalus, fel y disgrifir yn ‘Dulliau Diogelu’ isod.

## Adran 37

10. Roedd y ddogfen ymgynghori’n nodi bod y rheoliadau’n debygol o bennu mai uchafswm o flwyddyn fyddai’r cyfnod pryd na fyddai cynllun ffioedd a mynediad newydd yn cael ei gymeradwyo (mewn cysylltiad ag adran 37(7)(a)). Ni chafwyd unrhyw ymatebion a oedd yn anghytuno â hyn, a chaiff rheoliadau eu gwneud yn unol â hynny. Mae darpariaeth debyg yn ei lle ers tro dan adran 38 o Ddeddf Addysg Uwch 2004.

11. Hefyd, gwneir rheoliadau dan adran 37(7)(c). Mae’r adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch y weithdrefn i'w dilyn mewn cysylltiad â thynnu’n ôl hysbysiad i wrthod cynllun ffioedd a mynediad newydd. Cynigir y bydd y rheoliadau’n rhagnodi bod y sefydliad rheoledig a Gweinidogion Cymru yn cael gwybod yn ysgrifenedig am y tynnu’n ôl, a bod y rhesymau dros dynnu’r hysbysiad yn ôl yn cael eu ddarparu iddynt.

12. Roedd cwestiynau 13 ac 14 o’r ddogfen ymgynghori yn gofyn i'r ymatebwyr ystyried pa faterion y gallai’r Cyngor Cyllido eu hystyried wrth ystyried a ddylai roi hysbysiad i wrthod cymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad newydd, a ph’un a oes ganddynt unrhyw sylwadau eraill.

13. Gofynnodd dau ymatebydd a fyddai cymorth ariannol yn cael ei roi yn ei le er mwyn cynorthwyo sefydliad sy’n dioddef yn ariannol o ganlyniad i hysbysiad i wrthod cymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad newydd. Nid oes darpariaeth o'r fath yn yr arfaeth.

14. Nododd tri ymatebydd y gallai cyhoeddi hysbysiad cyn i weithdrefn adolygu ddod i ben fod yn broblemus oherwydd efallai nad yw penderfyniad i gyhoeddi hysbysiad wedi cael ei gadarnhau. Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn hyn, a chynigir y bydd rheoliadau’n sicrhau na fydd hysbysiad yn cael ei roi ond ar ôl i weithdrefn adolygu gael ei chwblhau (os yw’r sefydliad dan sylw yn ceisio adolygiad) a bod y Cyngor Cyllido yn darparu cadarnhad i'r sefydliad fod yr hysbysiad wedi dod i rym (gweler paragraff 23 isod).

15. Nododd un ymatebydd mai dim ond ar ôl cynnal proses adolygu lawn y dylid cyhoeddi hysbysiad. Mae adrannau 41–44 o'r Ddeddf, ynghyd â Rheoliadau Addysg Uwch (Cynlluniau Ffioedd a Mynediad) (Hysbysiadau a Chyfarwyddiadau) (Cymru) 2015[4], yn rhagnodi sut y bydd proses adolygu yn berthnasol i hysbysiadau dan yr adran hon a’r cyfnod pryd na ddylid trin hysbysiad fel un sydd wedi cael ei roi gan y Cyngor Cyllido.

---

[4] O.S. 2015/1485(W.164).

16. Nododd un ymatebydd y gellir rhoi hysbysiad oherwydd methiant sy'n ymwneud â 'mater bychan' a bod angen dulliau diogelu. Mae Llywodraeth Cymru yn credu bod dulliau diogelu digonol yn eu lle (gweler paragraffau 24–26). At hynny, dan reoliad 7(c) o Reoliadau Addysg Uwch (Cynlluniau Ffioedd a Mynediad) (Hysbysiadau a Chyfarwyddiadau) (Cymru) 2015, gellir gwneud cais am adolygiad i hysbysiad neu gyfarwyddyd pan fo corff llywodraethu o'r farn fod yr hysbysiad neu'r cyfarwyddyd yn anghymesur yng ngoleuni'r holl ffeithiau perthnasol a ystyriwyd gan y Cyngor Cyllido.

## Adran 38

17. Mae'r weithdrefn rybuddio (adran 42) ac adolygu (adran 44) yn berthnasol i hysbysiadau a roddir dan adrannau 37 a 39, ond nid adran 38. Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn i ymatebwyr ystyried a ddylai'r weithdrefn rybuddio ac adolygu fod yn berthnasol i adran 38. Mae adran 38 yn ymwneud â dyletswydd y Cyngor Cyllido i dynnu'n ôl ei gymeradwyaeth i gynllun ffioedd a mynediad pan nad yw'r sefydliad mwyach yn sefydliad elusennol sy'n darparu addysg uwch yng Nghymru. Roedd yr ymatebwyr yn unfarn y dylai wneud hynny. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gwneud rheoliadau sy'n cymhwyso adrannau 42–44 i hysbysiadau dan adran 38. Er bod adran 38(3) yn caniatáu i adrannau 41–44 gael eu diwygio neu eu cymhwyso, a hynny gydag addasiadau neu hebddynt, nid yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu addasu unrhyw ddarpariaeth yn ymwneud ag adrannau 41–44.

18. Nododd un ymatebydd mai mater i'w gadarnhau gan y Comisiwn Elusennau yw'r dystiolaeth ynghylch statws elusennol. Mae'r Ddeddf yn darparu nad yw'r ddyletswydd i dynnu cymeradwyaeth yn codi oni bai fod y Cyngor Cyllido wedi'i fodloni (ymhlith pethau eraill) nad yw sefydliad yn elusen mwyach. Er y gallai hyn gynnwys ceisio gwybodaeth gan y Comisiwn Elusennau, ni chredir bod angen deddfwriaeth ynghylch y mater.

## Adran 39

19. Roedd y cwestiynau a ofynnwyd am adran 38 yn debyg i'r rhai a ofynnwyd am adran 37, ac felly roedd yr ymatebion yn debyg. Gofynnwyd i'r ymatebwyr pa faterion y gallai'r Cyngor Cyllido eu hystyried wrth benderfynu tynnu cymeradwyaeth i gynllun ffioedd a mynediad ai peidio, ac am unrhyw sylwadau eraill sydd ganddynt.

20. Fel gydag adran 37, cynigir na fydd hysbysiadau a roddir dan adran 39 yn cael eu cyhoeddi ond pan fo unrhyw broses adolygu wedi dod i ben a bod y Cyngor Cyllido yn darparu cadarnhad i'r sefydliad fod yr hysbysiad mewn grym (gweler paragraff 23 isod). Codwyd hyn gan un ymatebydd.

21. Codwyd y broblem o hysbysiad ar gyfer materion bychain yn cael ei ddefnyddio'n amhriodol. Fel gydag adran 37, mae Llywodraeth Cymru o'r farn fod dulliau diogelu priodol yn eu lle fel y nodir ym mharagraff 16 uchod.

## Adran 40

22. Mae adran 40 yn datgan y gellir gwneud rheoliadau ynghylch sut a phryd y mae'n rhaid i'r Cyngor Cyllido ddarparu copi o hysbysiad a roddir dan adran 37, 38 neu 39 i Weinidogion Cymru a sut a phryd y mae'n rhaid i'r Cyngor Cyllido gyhoeddi hysbysiad o'r fath.

23. Roedd yr ymatebwyr yn bendant na ddylid cyhoeddi hysbysiadau cyn i unrhyw broses adolygu gael ei chwblhau. Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â hynny. Bydd rheoliadau'n sicrhau na fydd hysbysiad yn cael ei drin fel un sydd wedi cael ei roi (sef yr adeg pryd y daw i rym) gan y Cyngor Cyllido ar ôl i broses adolygu (os oes un) ddod i ben a bod hysbysiad yn cael ei gyhoeddi cyn pen saith niwrnod ar ôl iddo gael ei roi. Cynigir bod copi o'r hysbysiad yn cael ei ddarparu i Weinidogion Cymru ar unwaith pryd y caiff ei roi yn gyntaf i gorff llywodraethu'r sefydliad dan sylw (hynny yw cyn unrhyw adolygiad posibl ac ati). Fel y nodir uchod, gellir tynnu hysbysiadau mewn cysylltiad ag adran 37, a chynigir y bydd yn ofynnol i'r Cyngor Cyllido dynnu oddi ar ei wefan unrhyw hysbysiad tynnu'n ôl.

## Dulliau diogelu

24. Roedd yr ymgynghoriad yn tynnu sylw at bryderon gan randdeiliaid ynglŷn â defnydd amhriodol posibl o rai pwerau, a'r angen am ddulliau diogelu priodol. Dyma rai o sylwadau'r ymatebwyr:

● (Mewn cysylltiad ag adran 37) [m]ae'n bryder fod y Ddeddf yn caniatáu i'r Cyngor Cyllido wrthod cymeradwyo cynllun ar seiliau gwan h.y. mae sefydliad wedi methu â chydymffurfio â gofyniad cyffredinol o'i gynllun cymeradwy. Mae'r Ddeddf yn sicrhau na fydd sefydliad yn cael ei drin fel un sydd wedi methu cydymffurfio â gofyniad cyffredinol os yw, ym marn y Cyngor Cyllido, wedi cymryd pob cam rhesymol i gydymffurfio. Fodd bynnag, un pwynt pwysig a godwyd gennym ynghylch y Bil yw nad yw hyn yn atal y methiant dan sylw rhag ymwneud â mater bychan.

● (Mewn cysylltiad ag adran 39) [r]ydym eisoes wedi mynegi ein pryderon fod ad.39 o'r Ddeddf yn caniatáu i'r Cyngor Cyllido dynnu'n ôl ei gymeradwyaeth i gynllun am faterion sydd o bosibl yn rhai bychain. Er enghraifft, ni fyddem yn dymuno gweld y pŵer hwn yn cael ei ddefnyddio, fel y gellir gwneud ar hyn o bryd, i dynnu cymeradwyaeth yn ôl oherwydd methiant cyson, sy'n fychan o ran natur, i gydymffurfio â gofyniad cyffredinol mewn cynllun. Byddai tynnu'n ôl ar sail un achos o fethu â chydymffurfio â chyfarwyddyd (y gellir ei orfodi drwy waharddeb) hefyd yn ymddangos yn ormodol oni bai ei fod yn ymwneud â methiant mawr a sylweddol i gydymffurfio â gofynion rhagnodedig a ystyriwyd yn llawn.

25. Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno na ddylid defnyddio'r pwerau mewn amgylchiadau o'r fath. Roedd Llywodraeth Cymru yn ystyried a allai'r gallu i ragnodi 'materion sydd i'w hystyried' gael ei ddefnyddio i ddatblygu dulliau diogelu eraill er mwyn amddiffyn rhag y materion a godir uchod. Ond mae'r swyddogion yn ymwybodol o'r canlynol:

● Fel corff cyhoeddus statudol sy'n cyflawni swyddogaethau cyhoeddus, mae'r gyfraith gyffredin yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor Cyllido weithredu'n rhesymol, cymryd ffactorau perthnasol i ystyriaeth, a diystyru pob ffactor amherthnasol wrth gyflawni eu swyddogaethau. Yn hyn o beth, nid yw'r Cyngor Cyllido yn gwbl rydd i gyflawni ei swyddogaethau ym mha ffordd bynnag y mae'n dymuno. Mae'r Cyngor Cyllido yn ddarostyngedig i egwyddorion cyfraith weinyddol a bydd yr egwyddorion hyn yn berthnasol wrth gyflawni swyddogaethau'r Cyngor Cyllido dan y Ddeddf. Rhaid i'r Cyngor Cyllido weithredu mewn modd sy'n deg o ran gweithdrefnau ac sy'n cyd-fynd â'r polisïau a gyhoeddwyd ganddo ei hun. Yn hyn o beth, mae'r gyfraith gyffredin eisoes yn darparu dulliau diogelu mewn perthynas â swyddogaethau'r Cyngor Cyllido dan Ran 5 o'r Ddeddf.

● Mae adran 52 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor Cyllido baratoi a chyhoeddi datganiad sy'n nodi sut y mae'n bwriadu cyflawni ei swyddogaethau ymyrryd. Caiff sefydliadau rheoledig ddibynnu ar y datganiad hwnnw. Wrth ei lunio, rhaid i'r Cyngor Cyllido ystyried cyfarwyddyd a roddir gan Weinidogion Cymru. Mae cyfarwyddyd ar lunio'r datganiad wedi cael ei roi i'r Cyngor Cyllido[5], ac mae'n cynnwys yr egwyddorion a ganlyn:

- pan fo modd, dylai'r Cyngor Cyllido geisio datrys materion drwy ddeialog gyda sefydliadau a thrwy ddarparu cymorth a chefnogaeth anffurfiol;
- dim ond pan fo raid y bydd ymyrryd yn digwydd;
- bydd y camau a gynigir gan y Cyngor Cyllido yn gymesur â'r methiant rheoleiddiol neu'r pryder dan sylw; a
- lle bo modd, dylai'r Cyngor Cyllido drafod cynigion i gyflawni swyddogaeth ymyrryd gyda'r corff llywodraethu neu bennaeth y sefydliad neu'r darparwr dan sylw.

● Mae'r Ddeddf yn darparu bod rhaid i'r Cyngor Cyllido, cyn iddo roi unrhyw hysbysiad i gymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad newydd (adran 37) neu i dynnu'n ôl ei gymeradwyaeth i gynllun ffioedd a mynediad (adran 39), roi hysbysiad rhybuddio, a chaiff sefydliad rheoledig wneud sylwadau am yr hysbysiad rhybuddio

[5] Cyfarwyddyd a roddwyd i'r Cyngor Cyllido gan Weinidogion Cymru dan adran 49 o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru), 2015
http://www.hefcw.ac.uk/documents/publications/circulars/circulars_2015/W15%2012HE%20Annex%20A%20part%202.pdf

hwnnw. Mae’r Rheoliadau Addysg Uwch (Cynlluniau Ffioedd a Mynediad) (Hysbysiadau a Chyfarwyddiadau) (Cymru) 2015 yn darparu cyfnod o 40 diwrnod ar gyfer gwneud sylwadau. Pan roddir hysbysiad, gall sefydliad rheoledig ofyn fod panel annibynnol a benodir gan Weinidogion Cymru yn cynnal adolygiad. Mae Rheoliadau Addysg Uwch (Cynlluniau Ffioedd a Mynediad) (Hysbysiadau a Chyfarwyddiadau) (Cymru) 2015 yn darparu’r sail ar gyfer adolygiad. Dyma’r sail:

- mae’r corff llywodraethu yn cyflwyno ffactor perthnasol i'w ystyried nad yw, am resymau da, wedi tynnu sylw’r Cyngor Cyllido atynt eisoes;
- mae’r corff llywodraethu yn ystyried bod y Cyngor Cyllido wedi diystyru ffactor perthnasol y dylai fod wedi ei ystyried; ac
- mae’r corff llywodraethu yn ystyried bod yr hysbysiad neu’r cyfarwyddyd yn anghymesur yng ngoleuni’r holl ffeithiau perthnasol a gafodd eu hystyried gan y Cyngor Cyllido.

● Unwaith y daw adolygiad i ben, rhaid i'r Cyngor Cyllido ystyried canfyddiadau’r panel adolygu annibynnol. Mae proses yr hysbysiad rhybuddio ac adolygu yn rhoi digon o gyfle i sefydliad gyflwyno achos os yw’n teimlo nad yw cosb yn gymesur neu nad oes modd ei chyfiawnhau. Yn ymarferol, mae’n debygol y bydd mwy eto o ymwneud rhwng sefydliad rheoledig a’r Cyngor Cyllido nag y mae’r Ddeddf a’r rheoliadau’n darparu ar ei gyfer, fel y pennir yn y cyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru i’r Cyngor Cyllido a ddisgrifir uchod.

● Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu deddfu fel y bo’r darpariaethau rhybuddio (adran 42) ac adolygu (adran 44) yn berthnasol hefyd i hysbysiadau a roddir dan adran 38, ac felly bydd y pwyntiau a wnaed yn y paragraffau blaenorol hefyd yn berthnasol i'r hysbysiadau hyn.

26. Gan ystyried yr uchod gyda’i gilydd, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod dulliau diogelu digonol yn eu lle i sicrhau nad yw hysbysiadau’n cael eu rhoi mewn modd amhriodol.

## Adran 52

27. Esboniodd Llywodraeth Cymru yn y ddogfen ymgynghori nad oedd yn bwriadu gwneud rheoliadau mewn cysylltiad ag adran 52. Roedd yr ymatebwyr yn cytuno’n gyffredinol â’r bwriad i beidio â gwneud rheoliadau ar hyn o bryd. Nododd dau ymatebydd bwysigrwydd cyfarwyddyd i’r Cyngor Cyllido a chan y Cyngor Cyllido i'r sector. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cyfarwyddyd i’r Cyngor Cyllido ynghylch y swyddogaethau ymyrryd y mae modd eu cyflawni yn ystod y cyfnod pontio (1 Awst 2015 i 31 Awst 2017), sy’n cynnwys yr egwyddorion a ddisgrifir ym mharagraff 25. Caiff rhagor o gyfarwyddyd ei ddarparu maes o law i’r Cyngor Cyllido mewn perthynas â’r swyddogaethau ymyrryd sy’n weddill ganddo dan Deddf 2015.